The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn Cyfarfod Rhagarweiniol

| | |
|---|---|
| **Cais:** | Piblinell Carbon Deuocsid HyNet |
| **Cyfeirnod:** | EN070007 |
| **Amser a dyddiad:** | 20 Mawrth 2023, 10:00am |
| **Lleoliad:** | Digwyddiad rhithwir (Microsoft Teams) |

*Nid yw'r nodyn cyfarfod hwn yn drawsgrifiad llawn o'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Crynodeb ydyw o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd.*

## 1. Croeso a Chyflwyniad

Croesawodd Christopher Butler y rhai a oedd yn bresennol ac fe'i cyflwynodd ei hun fel aelod arweiniol y Panel o Arolygwyr Archwilio. Cyflwynodd Matthew Shrigley ei hun fel aelod arall o banel yr Awdurdod Archwilio (ExA), i archwilio Piblinell Carbon Deuocsid HyNet (y Cais).

Esboniodd Christopher Butler fod penodi'r ExA wedi cael ei ddirprwyo i'r Arolygiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar 17 Ionawr 2023.

Esboniodd Christopher Butler y byddai'r ExA yn archwilio'r Cais a wnaed gan Liverpool Bay CCS Limited (yr Ymgeisydd) cyn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn penderfynu p'un a ddylid gwneud Gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu ar gyfer y prosiect arfaethedig, sy'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP).

Esboniodd Christopher Butler ddiben y Cyfarfod Rhagarweiniol a dywedodd y bydd yr Archwiliad yn dechrau ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol orffen.

Cadarnhaodd yr ExA y bydd yr holl ddogfennau a chyflwyniadau a geir ac a dderbynnir yn ystod yr Archwiliad yn cael eu cyhoeddi ar dudalen benodol y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

## 2. Recordiad Sain

Mae'r recordiad sain llawn o'r Cyfarfod Rhagarweiniol ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol a gellir cael ato yma.

## 3. Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Esboniodd yr ExA ddyletswyddau'r Arolygiaeth Gynllunio o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â'r GDPR ar gael yn Hysbysiad Preifatrwydd yr Arolygiaeth Gynllunio.

## 4. Y Broses Archwilio

Rhoddodd yr ExA esboniad byr o'r broses archwilio o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (PA2008). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nodyn Cyngor 8.4

## 5. Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion

Esboniodd yr ExA ddiben yr Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion (adran 88 PA2008), sydd ar gael yn Atodiad B y llythyr Rheol 6 dyddiedig 20 Chwefror 2023, a gofynnodd am unrhyw sylwadau arnynt.

Ni wnaeth y partïon a oedd yn bresennol unrhyw sylwadau.

## 6. Amserlen yr Archwiliad

Nododd yr ExA geisiadau a gafwyd yn ysgrifenedig eisoes i ddiwygio Amserlen ddrafft yr Archwiliad a gynhwyswyd yn Atodiad C y llythyr Rheol 6 a chroesawodd awgrymiadau ychwanegol gan y partïon a oedd yn bresennol hefyd. Nodwyd yr holl sylwadau a gafwyd gan yr ExA a bydd ystyriaethau'n cael eu hadlewyrchu yn y llythyr Rheol 8.

Cyfeiriodd Cyngor Sir y Fflint (FCC) at ei anallu i gyflwyno ei Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) erbyn Terfyn Amser 1 ar 17 Ebrill 2023. Mae angen i'r LIR gael ei gymeradwyo gan aelod o'r cabinet ac ni fyddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal tan 25 Ebrill 2023. Gofynnwyd i FCC b'un a fyddai'r adroddiad y bwriedir ei gyflwyno ar gael yn gyhoeddus cyn y cyfarfod. Awgrymodd FCC y byddai'r agenda ar gyfer y cyfarfod ar gael yn gyhoeddus tua wythnos o flaen llaw, ond byddai'n cadarnhau'n ddiweddarach p'un a fyddai'r adroddiad ar gael bryd hynny hefyd. Cadarnhaodd FCC y gallai gyflwyno'r LIR ar 26 Ebrill 2023.

Adleisiodd Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (CWCC) anhawster FCC o ran bodloni materion ecolegol erbyn Terfyn Amser 1.

Amlygodd CWCC nad oedd yr Ymgeisydd wedi awgrymu cyflwyno'r LIR wedi'i ddiweddaru yn gynharach, sef erbyn Terfyn Amser 7. Dywedodd yr Ymgeisydd y byddai gofyn i'r LIR gael ei gyflwyno'n gynharach, sef erbyn Terfyn Amser 7, yn rhoi cyfle iddo wneud sylwadau terfynol ar y cyfryw ddogfennau.

Cynigiodd yr Ymgeisydd bedwar newid i Amserlen ddrafft yr Archwiliad. Roedd y newid mwyaf sylweddol yn ymwneud â'r gwrandawiadau arfaethedig, yn ystod yr wythnos yn dechrau 5 Mehefin 2023. Roedd hyn o ganlyniad i gyfyngiadau adnoddau gan fod gwrandawiadau Prosiect Bioynni gyda Dal a Storio Carbon Drax yr un wythnos. Pe byddai'r gwrandawiadau arfaethedig yn aros yn ystod wythnos 5 Mehefin 2023, gofynnodd yr Ymgeisydd i'r Gwrandawiadau Penodol i Bwnc gael eu cynnal ar ddydd Llun a dydd Mawrth, y Gwrandawiad Caffael Gorfodol ar ddydd Mercher, a'r Gwrandawiad Llawr Agored ar ddydd Iau.

Esboniodd yr Ymgeisydd efallai y bydd angen mwy nag un diwrnod ar gyfer Archwiliad Safle gyda Chwmni ac y gallai fod ar wahân i'r wythnos a amserlennwyd dros dro ar gyfer gwrandawiadau. Amlygodd yr Ymgeisydd agosrwydd ei wythnos a ffefrir ar gyfer

Gwrandawiadau (22 Mai 2023) i Derfyn Amser 3, ond nid oedd o'r farn bod hynny'n achosi anfantais i unrhyw Barti â Buddiant. Adleisiwyd y pwynt hwn gan CWCC. Cadarnhaodd FCC a CWCC eu bod ar gael ar gyfer gwrandawiadau yn ystod yr wythnos newydd ei hawgrymu, sef 22 Mai 2023, a'r wythnos a amserlennwyd dros dro, sef 5 Mehefin 2023.

Mae Amserlen yr Archwiliad ar gael yn y llythyr Rheol 8 a gyhoeddwyd ar 27 Mawrth 2023.

## 7. Gwrandawiadau ac Archwiliadau Safle

Eglurodd yr ExA ddiben:

- Gwrandawiadau Penodol i Bwnc
- Gwrandawiadau Caffael Gorfodol
- Gwrandawiadau Llawr Agored
- Archwiliadau Safle gyda Chwmni
- Archwiliadau Safle Digwmni

Ceisiodd yr ExA sylwadau ar y trefniadau ar gyfer y digwyddiadau uchod. Nodwyd y rhain ac fe'u hystyriwyd gan yr ExA.

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â gwrandawiadau ac archwiliadau safle ar gael yn ein Nodyn Cyngor 8.5.

## 8. Penderfyniadau Gweithdrefnol

Eglurodd yr ExA y penderfyniadau gweithdrefnol a wnaed o dan adran 89(3) PA2008 a gofynnodd am unrhyw sylwadau.

Cyfeiriodd yr Ymgeisydd at y Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) gyda'r bwriad o gyfyngu ar ddisgwyliadau, gan gynghori y byddai'n annhebygol o gael SoCG gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau nac Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig.

Mynegodd yr Ymgeisydd ei fwriad i gyflwyno cais i newid, fel y nodwyd yn ei gyflwyniad erbyn Terfyn Amser Gweithdrefnol A. Cytunodd yr ExA y gallai hyn gael ei drafod fel eitem ar wahân o'r agenda o dan unrhyw fater arall.

Mae penderfyniadau gweithdrefnol i'w gweld yn Atodiad E y llythyr Rheol 6.